Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 48

## Gorchymyn Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau’r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

*Gwnaed* *12 Chwefror 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 48

## The Individual Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026

*Made* *12 February 2026*

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 48

## Y COMISIWN ETHOLIADOL

## CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## SENEDD CYMRU

# Gorchymyn Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 18 Chwefror 2026 fel y diwrnod y daw Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025 ("Cod Ymarfer") i rym.

Mae'r Cod Ymarfer yn disodli Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021, ar gyfer etholiadau i Senedd Cymru a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026. Dirymwyd Gorchymyn Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021 (Diwrnod Penodedig) 2021 (O.S. 2021/264 (Cy. 70)), a oedd yn pennu diwrnod i God Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021 ddod i rym, ar 18 Gorffennaf 2025 gan Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (O.S. 2025/864 (Cy. 150)) ("Gorchymyn 2025"), yn ddarostyngedig i arbedion penodol.

Lluniodd y Comisiwn Etholiadol y Cod Ymarfer drafft a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo, yn unol â pharagraff 20(2) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Cod Ymarfer drafft heb addasiadau, a gosodwyd y Cod Ymarfer drafft gerbron Senedd Cymru ar 15 Rhagfyr 2025.

Ni wnaed penderfyniad gan Senedd Cymru i beidio â chymeradwyo'r Cod Ymarfer drafft ac o ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn er mwyn pennu'r diwrnod i'r Cod Ymarfer ddod i rym.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Dyroddwyd y Cod Ymarfer gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 20(7)(a) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 a bydd y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 20(7)(c) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 48

## Y COMISIWN ETHOLIADOL

## CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## SENEDD CYMRU

## Gorchymyn Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

*Gwnaed* *12 Chwefror 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 20(7)(b) o Atodlen 7 i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025(**1**) ("Gorchymyn 2025"), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Lluniodd y Comisiwn Etholiadol ddrafft o God Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025 ("Cod Ymarfer") yn unol â pharagraff 20(1) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo, yn unol â pharagraff 20(2) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025.

Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru y Cod Ymarfer drafft heb addasiadau yn unol â pharagraff 20(3) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025, a gosodwyd y Cod Ymarfer drafft gerbron Senedd Cymru ar 15 Rhagfyr 2025, yn unol â pharagraff 20(4) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025.

Ni wnaed penderfyniad o'r math a grybwyllir ym mharagraff 20(6) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 gan Senedd Cymru o fewn 40 niwrnod i'r Cod Ymarfer drafft gael ei osod.

Dyroddwyd y Cod Ymarfer, ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd, gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 20(7)(a) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 a bydd y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 20(7)(c) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025.

(**1**) O.S. 2025/864 (Cy. 150).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cod Ymarfer" yw Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025, y gosodwyd drafft ohono gerbron y Senedd ar 15 Rhagfyr 2025.

**Y diwrnod penodedig a darpariaethau trosiannol**

**2.**—(1) Y diwrnod penodedig i'r Cod Ymarfer ddod i rym yw 18 Chwefror 2026.

(2) Er bod y Cod Ymarfer yn dod i rym o dan baragraff (1), nid yw'r Cod Ymarfer yn cael effaith mewn perthynas â'r canlynol—

(a) etholiad cyffredinol y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar 6 Ebrill 2026 neu cyn hynny;

(b) Senedd a ddychwelir mewn etholiad cyffredinol y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar 6 Ebrill 2026 neu cyn hynny;

(c) dychwelyd aelod i Senedd a grybwyllir yn is-baragraff (b), mewn etholiad cyffredinol neu fel arall(**2**).

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
12 Chwefror 2026

(**2**) Pennodd O.S. 2021/264 (Cy. 70) ddiwrnod i God Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021 ddod i rym. Dirymwyd O.S. 2021/264 ar 18 Gorffennaf 2025 gan O.S. 2025/864 (Cy. 150), gweler erthygl 1(3) a pharagraff 9 o Atodlen 12, ond yn unol ag erthygl 1(4) a (5) o O.S. 2025/864, mae O.S. 2021/264 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag aelodau a ddychwelir i Senedd Cymru mewn etholiad cyffredinol, y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar 6 Ebrill 2026 neu cyn hynny.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 48

## ELECTORAL COMMISSION

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## SENEDD CYMRU

# The Individual Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order appoints 18 February 2026 as the day on which the Individual Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2025 ("Code of Practice") comes into force.

The Code of Practice replaces the Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2021, for elections to Senedd Cymru held after the 6 April 2026. The Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2021 (Appointed Day) Order 2021 (S.I. 2021/264 (W. 70)), which appointed a day for the Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2021 to come into force, was revoked, subject to certain savings, on 18 July 2025 by the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025 (S.I. 2025/864 (W. 150)) ("2025 Order").

The Electoral Commission prepared the draft Code of Practice and, in accordance with paragraph 20(2) of Schedule 7 to the 2025 Order, submitted it to the Welsh Ministers for approval. The Welsh Ministers have approved the draft Code of Practice without modifications, and the draft Code of Practice was laid before Senedd Cymru on 15 December 2025.

No resolution to not approve the draft Code of Practice was made by Senedd Cymru and as a result, the Welsh Ministers make this Order to appoint the day for the Code of Practice to come into force.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

The Code of Practice was issued by the Welsh Ministers under paragraph 20(7)(a) of Schedule 7 to the 2025 Order and the Code of Practice will be published by the Electoral Commission under paragraph 20(7)(c) of Schedule 7 to the 2025 Order.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 48

## ELECTORAL COMMISSION

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## SENEDD CYMRU

# The Individual Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026

*Made* *12 February 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by paragraph 20(7)(b) of Schedule 7 to the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025(**1**) ("the 2025 Order") make the following Order.

The Electoral Commission prepared a draft of the Individual Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2025 ("Code of Practice") in accordance with paragraph 20(1) of Schedule 7 to the 2025 Order and, in accordance with paragraph 20(2) of Schedule 7 to the 2025 Order, submitted it to the Welsh Ministers for approval.

The Welsh Ministers approved the draft Code of Practice without modifications in accordance with paragraph 20(3) of Schedule 7 to the 2025 Order, and the draft Code of Practice was laid before Senedd Cymru on 15 December 2025, in accordance with paragraph 20(4) of Schedule 7 to the 2025 Order.

No resolution of the kind mentioned in paragraph 20(6) of Schedule 7 to the 2025 Order was made by Senedd Cymru within 40 days of the draft Code of Practice being laid.

The Code of Practice was issued, in the form of the draft laid before the Senedd, by the Welsh Ministers under paragraph 20(7)(a) of Schedule 7 to the 2025 Order and the Code of Practice will be published by the Electoral Commission under paragraph 20(7)(c) of Schedule 7 to the 2025 Order.

(**1**) S.I. 2025/864 (W. 150).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Title and interpretation

**1.**—(1) The title of this Order is the Individual Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026.

(2) In this Order, "the Code of Practice" means the Individual Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2025, a draft of which was laid before the Senedd on 15 December 2025.

### Appointed day and transitional provisions

**2.**—(1) The day appointed for the coming into force of the Code of Practice is 18 February 2026.

(2) Despite the coming into force of the Code of Practice under paragraph (1), the Code of Practice does not have effect in relation to—

(a) a general election the poll for which is held on or before 6 April 2026;

(b) a Senedd returned at a general election the poll for which is held on or before 6 April 2026;

(c) the return of a member to a Senedd mentioned in sub-paragraph (b), at a general election or otherwise(**2**).

*Jayne Bryant*
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
12 February 2026

(**2**) S.I. 2021/264 (W. 70) appointed a day for the Candidate Election Expenses (Senedd Elections) Code of Practice 2021 to come into force. S.I. 2021/264 was revoked on 18 July 2025 by S.I. 2025/864 (W. 150), see article 1(3) and paragraph 9 of Schedule 12, but in accordance with article 1(4) and (5) of S.I. 2025/864, S.I. 2021/264 continues to have effect in relation to members returned to Senedd Cymru at a general election, the poll for which is held on or before 6 April 2026.